Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Croesgoch
Festri'r Capel
Croesgoch
Sir Benfro
SA62 5JP

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/03/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Croesgoch ym mhentref Croesgoch, ger Tŷ Ddewi, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae’n cyfarfod yn festri’r capel lleol. Mae ar agor am bedwar bore’r wythnos ac mae gan y lleoliad pedwar aelod o staff.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant. Mae'n derbyn plant dwy a thair blwydd oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd 14 plentyn, pump ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig. Mae bron pob un yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf ac ychydig yn siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Mawrth 2009. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Awst 2015. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y ddarpariaeth o ystod eang o brofiadau dysgu perthnasol a diddorol yn cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth y plant
- ansawdd yr addysgu yn effeithiol ac yn cefnogi dysgu llwyddiannus
- y ddarpariaeth ar gyfer gofalu, cefnogi ac arwain plant yn ddiwyd
- defnydd pwrpasol o'r holl staff, sy'n gryfder yn y lleoliad
- y lleoliad yn gymuned ddiogel a gofalgar, sy'n gwerthfawrogi pob plentyn yn gyfartal
- yr amgylchedd dysgu, yn enwedig dan do, yn cael ei ddefnyddio'n greadigol i ddarparu tasgau ysgogol i wella deilliannau'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn rhoi cyfeiriad clir i waith y lleoliad
- hanes yr arweinyddiaeth o reoli gwelliannau dros amser yn effeithiol
- hunanarfarnu'n drylwyr ac wedi arwain at welliannau sylweddol dros amser
- staff yn cymryd rhan weithredol mewn datblygiad a hyfforddiant proffesiynol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu plant
- partneriaethau buddiol iawn gyda'r rhieni, y gymuned leol, yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin, sy'n gymorth wrth ddatblygu'r lleoliad ymhellach
- y pwyllgor rheoli yn herio, yn cefnogi ac yn dal y lleoliad i gyfrif yn synhwyrol
- rheolwyr yn defnyddio cyllid yn effeithlon

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cyflwyniadau i dasgau yn cael eu hamseru'n effeithiol er mwyn cynnal diddordebau'r plant

A2 Gwella'r meysydd dysgu yn yr ardal allanol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu’r cwricwlwm yn effeithiol ac mae’n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae'r profiadau dysgu’n targedu anghenion a diddordebau’r plant yn llwyddiannus ac yn eu hysgogi i ddysgu’n bwrpasol. Mae'r plant yn cymryd rhan yn y cynllunio o themâu, sy'n cyfrannu at eu cymhelliant.

Mae'r staff yn cynllunio profiadau dysgu’n drylwyr mewn cyfarfodydd wythnosol. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau hyblyg ac arloesol. Mae'r profiadau dysgu bywiog, sy'n cynnwys gwneud dynion eira allan o ewyn a darnau arian a chyfrif i ddeg gan ddefnyddio cerrig mawr mewn gridiau, yn darparu dilyniant a pharhad yn dysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn herio pob plentyn. Mae'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant a chysylltu’n gyson i strategaethau asesu’r lleoliad i dargedu’r camau nesaf yn dysgu’r plant.

Mae staff yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant fentro ac i fod yn ddysgwyr annibynnol drwy beintio, darganfod negeseuon wrth ddraenog ac ymchwilio gyda synwyryddion metel. Maent yn canolbwyntio’n ddeallus ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant.

Mae'r lleoliad yn cynllunio’n fanwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a meddwl y plant. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn yn cael ei gydlynu’n effeithlon fel bod cydlyniad ym mhrofiadau'r plant ar draws y cwricwlwm. Mae'r deunyddiau a’r dulliau cyflwyno dyddiol yn cael eu haddasu'n dda i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i bob plentyn. Mae’r staff yn rhoi hyn ar waith yn gydwybodol. Mae’r cynllunio o wneud marciau a thasgau rhif ar draws yr holl feysydd dysgu yn ysgogol a deniadol. Maent yn ddilyniadol a heriol, sy'n annog plant i ddechrau ffurfio llythrennau a rhifau mewn ffurfiau adnabyddus. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i blant adnabod enwau eu hunain ac enwau plant eraill.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi'n gadarnhaol profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae ymweliadau ar y bws i Dŷ Ddewi a cherdded ar y llwybr arfordirol yn ychwanegu diddordeb i'r cwricwlwm. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys person trin gwallt, dyn llaeth a'r gwasanaethau brys, yn addysgu plant yn bwrpasol am weithgareddau bob dydd o fewn eu cymuned.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol, sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae'r profiadau a gynllunnir yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd y mae'r plant yn byw ynddo.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn dda. Mae'r holl staff yn modelu iaith yn effeithiol. Maent yn caniatáu i blant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag sy'n bosibl yn eu dysgu. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliannau Cymru yn ystyrlon, sy'n cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu'r staff yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu'r plant yn y lleoliad. Mae gan yr holl staff wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu pob plentyn. Mae staff yn chwarae rhan weithredol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u harbenigedd. Maent yn bositif iawn wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda'r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn.

Mae'r staff yn cynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a ddewisir gan blentyn a gweithgareddau a arweinir gan staff, sy'n diwallu anghenion unigol y plant yn synhwyrol. Maent yn gwneud defnydd da a dychmygus o adnoddau, gan gynnwys technoleg fel llechi a chwaraewyr cerddoriaeth, i fwyhau'r dysgu. Mae'r ymyrraeth gan oedolion yn sensitif a medrus, sy'n annog plant i gymell eu hunain wrth iddynt ddysgu. Mae'r addysgu yn heriol ac mae'r staff yn deall y pwysigrwydd i ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ysgogol. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn amseru cyflwyniadau i dasgau'n effeithiol i gynnal diddordeb pob plentyn yn y gweithgaredd. Mae'r holl staff yn fodelau iaith da yn y Gymraeg, sy'n annog pob plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn arferion bob dydd.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad plant yn dda iawn. Maent yn darparu amgylchedd ysgogol, heriol a chyffrous, yn enwedig dan do, sy'n annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad y plant. Mae cwestiynu'r staff yn herio plant yn gyson, sy'n datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu'n dda. Mae staff yn annog y plant i werthuso'u gwaith yn llwyddiannus wrth iddynt gyfeirio llythyrau i bostio, gwneud rocedi o boteli plastig, peintio golygfeydd gaeafol a gwneud wynebau gyda phapur sidan. Mae gweithgareddau o'r fath yn sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn cyfrannu'n ystyrlon at dasgau.

Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn effeithiol a'n effeithlon. Mae'r asesiadau dyddiol yn arwain yn fanwl ac yn uniongyrchol at dargedau plant unigol a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae hon yn broses sydd yn cael ei rheoli'n dda, yn gadarnhaol a diwyd. Mae rhieni a gofalwyr yn

derbyn adroddiadau llawn gwybodaeth am gyflawniadau eu plant. Mae gwybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant, sy'n dylanwadu ar ddysgu plant yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol, drwy gyfleoedd cyson i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae staff hefyd yn caniatáu i blant i daenu menyn eu hunain ar gracers, gweini diodydd i’w gilydd a chymryd eu tro yn gwrtais o gwmpas y bwrdd bwyta yn ystod amser byrbryd. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i'r plant i ailgylchu bwyd, papur a photeli plastig. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dda, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae gan yr holl staff gymwysterau addas a phrofiad da. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio, addysgu a goruchwylio gweithgareddau. Mae’r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac mae pob plentyn yn gofyn am gymorth a chefnogaeth pan fo angen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, gyda drysau wedi'u cloi a gatiau wedi’u bolltio a dim ond aelod o staff sy’n eu hagor. Nid oes unrhyw un yn dod mewn yn ddirybudd ac na all plentyn gadael heb gwmni. Mae’r staff yn sicrhau bod plant o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd cyn i unrhyw un adael.

Mae'r lleoliad yn nodi anghenion dysgu plant yn dda pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r arweinydd yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol i dargedu cymorth yn effeithiol. O ganlyniad, mae trefniadau da i gefnogi pob plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos y lleoliad a’r arferion dyddiol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn llwyddiannus. Mae staff yn annog y plant i barchu eraill a datblygu agweddau goddefgar yn effeithiol, yn enwedig trwy weithgareddau grŵp. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae staff yn darparu mynediad cyfartal i blant i gwricwlwm diddorol, sy'n cael ei strwythuro’n bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o staff, sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd addas i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ei hadnoddau yn ystyrlon, yn enwedig y tu mewn i'r adeilad i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae’r plant yn symud yn rhydd o amgylch y neuadd ac yn cymryd rhan yn annibynnol mewn gweithgareddau, sy'n cynnwys y defnydd o TGCh, ym mhob maes dysgu. Mae plant yn caffael yr holl adnoddau’n hawdd, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn dda.

Mae’r gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi’r dysgu yn rhannu’r holl adnoddau’n gyfartal, sydd o fudd i bob plentyn yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau cymunedol yn dda, sy'n cynnwys yr ysgol leol a'r capel drws nesaf, i ategu at ddarpariaeth y lleoliad ac i gyfoethogi'r cwricwlwm.

Mae’r adeilad a’r ardal tu allan yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r staff yn defnyddio'r lle dan do yn arbennig o dda. Mae'r lleoliad yn tyfu blodau mewn esgidiau glaw yn yr ardal allanol, sy’n ddull priodol o addysgu’r plant am dyfiant planhigion. Mae'r defnydd o'r ardal hon ar gyfer gweithgareddau brochus, fel gyrru beiciau, rholio cylchoedd a chicio peli, yn addas. Er bod gan y lleoliad cynlluniau datblygu yn eu lle i wella’r meysydd dysgu yn yr ardal allanol, nid yw ei ddefnydd presennol yn llwyddiannus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae nodau clir, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau’r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth effeithiol, sy'n targedu anghenion plant. Mae'r lleoliad yn gosod ac yn monitro'r cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol yn erbyn camau gweithredu ac amserlenni priodol.

Mae'r arweinydd yn diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff yn dda. Mae'r arweinydd a'r staff yn rheoli eu hamser yn gynhyrchiol i flaenoriaethu anghenion yn effeithlon. Maent yn cydweithio ac yn gosod targedau heriol a realistig ar gyfer eu hunain ac eraill. Mae hyn yn sicrhau bod profiadau'r plant yn ddiddorol ac ysgogol. Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn cyd-drafod, cydweithredu ac yn derbyn cyngor yn synhwyrol gan staff ac asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol, y Mudiad Meithrin a'r rhieni. Mae'r arweinydd yn monitro’r addysgu’n agos, sy'n sicrhau cysondeb o ddulliau addysgu o ansawdd da. Mae hyn o fudd ac yn cefnogi pob plentyn.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd y lleoliad ac yn cefnogi a herio'r lleoliad. Mae hyn yn datblygu ymdeimlad o bwrpas i'w gwaith sy'n hyrwyddo a chynnal gwelliannau dros amser. Maent yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn dda iawn ac mae ganddynt ffocws cynaliadwy ar gyflawni cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r lleoliad. Mae'r arweinydd yn gweithredu polisïau a mentrau’n ystyrlon, gan gynnwys y rhai sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel bwyta'n iach, y Cyfnod Sylfaen a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae'r arweinydd yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu’n glir. Mae hi'n blaenoriaethu a mynd i'r afael yn llawn ag anghenion hyfforddiant staff.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunarfarnu a chynllunio i ddatblygu yn rhan reolaidd a phwysig o fywyd gwaith y lleoliad. Mae'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn monitro darpariaeth ac asesu deilliannau plant yn effeithiol. Mae'r broses yn cynnwys adolygiadau trylwyr o bob

agwedd ar fywyd y lleoliad a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar y safonau mae plant yn cyflawni.

Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llawn at y broses a'r ddogfen derfynol. Mae'r arweinydd yn rheoli'r lleoliad yn ddiwyd ar sail asesiad cywir o'i chryfderau a'i gwendidau. Mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn cael ei werthuso'n rheolaidd, sy'n targedu gwell hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu er mwyn gwella arferion addysgu.

Mae'r hunanarfarniad yn ystyried safbwyntiau staff, rhieni a gofalwyr, y pwyllgor rheoli, yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. O ganlyniad, mae'n arwain at gynllun datblygu trylwyr. Mae'r cynllun datblygu yn monitro gwelliannau yn erbyn targedau clir a meini prawf llwyddiant. Mae'n rhoi blaenoriaeth i'r materion mwyaf pwysig i wella ac mae'n ariannu gwelliannau’n dda. Er enghraifft, mae wedi nodi'r angen i wella’r meysydd dysgu yn yr ardal allanol.

Trwy gynnwys yr holl staff yn y broses hon, maent yn awyddus i dderbyn syniadau newydd ac i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio, a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae’r cyngor ar sut i wella’r cynllunio o lythrennedd a rhifedd, wedi effeithio ar ansawdd y profiadau dysgu a’r addysgu yn sylweddol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n strategol gyda phartneriaid i wella darpariaeth a safonau a lles plant. Mae’r effaith partneriaethau strategol ar safonau a lles plant yn sylweddol, yn enwedig cysylltiadau'r lleoliad gyda'r ysgol, yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant, sy'n cynnwys cyfranogi’n llwyddiannus mewn gorymdeithiau a chystadlaethau lleol.

Mae’r staff yn gweithio a chysylltu ag amrywiaeth eang o grwpiau partneriaeth, sy'n gwneud cyfraniad cryf at wella’r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi’r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, darpariaeth y Gymraeg, hylendid bwyd, diogelu plant a chymwysterau pellach. Mae gan yr ysgol leol perthynas lwyddiannus gyda'r lleoliad ac mae hyn yn cefnogi trefniadau trosglwyddo’r plant yn ystyrlon. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac o fudd i'r plant wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol.

Mae’r staff yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Maen nhw'n cael eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad. Mae perthynas gadarnhaol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog y Mudiad Meithrin yn mwyhau gwaith y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn cynllunio a chynnal strategaethau effeithiol i sicrhau a monitro bod gwerth am arian; yn y ffordd y mae'n rheoli adnoddau. Mae'n gymuned ddysgu gref, sydd â diwylliant o gydweithio rhwng staff a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar gynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau proffesiynol y staff. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi effeithiol, sy'n effeithio ar ddysgu a lles plant. Mae’r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithlon ac yn defnyddio staff i wneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn arwain staff at welliannau a gwell addysgu. Mae'r lleoliad yn darparu’r safonau gorau o adeiladau ac adnoddau posibl o fewn ei gyllideb. Mae'n datblygu meysydd ar gyfer dysgu yn yr ardal tu allan ac mae hwn yn darged yn ei gynllun datblygu cyfredol, er nad yw ei effaith yn amlwg eto.

Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli â dealltwriaeth glir o'r gyllideb ac yn blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â'u camau arfaethedig ar gyfer gwella. Maent yn gwneud yn siŵr fod yna effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar ddarpariaeth y lleoliad a deilliannau plant.

Yn sgîl y ddarpariaeth effeithiol, y staff diwyd, y pwyllgor rheoli cefnogol a’r arweinyddiaeth pwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 22 | 15<br>68% | 7<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 22 | 17<br>77% | 5<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 22 | 21<br>95% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 22 | 20<br>91% | 2<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 22 | 17<br>77% | 5<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 22 | 20<br>91% | 2<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 22 | 19<br>86% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 22 | 17<br>77% | 5<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 22 | 20<br>91% | 2<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 20 | 17<br>85% | 3<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 22 | 19<br>86% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 22 | 20 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 22 | 15 | 7 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 21 | 19 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 22 | 19 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 22 | 22 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |